**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0243/24

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

16 Medi 2024

Annwyl Llŷr

Diolch am eich llythyr ar 17 Gorffennaf ar Gytundeb Gwlad Letyol Sefydliad Coedwigoedd Ewrop (EFI) / y DU.

Mae EFI yn sefydliad rhyngwladol pwysig y mae gan y DU berthynas hirsefydlog ag ef. Fe'i sefydlwyd i gynnal ymchwil a darparu cyngor polisi ar faterion sy'n ymwneud â choedwigoedd.

O ran y Cytundeb Gwlad Letyol, ni ymgynghorwyd â ni ar y penderfyniad i sefydlu presenoldeb yn y DU. Wrth gwrs, mae gennym ddiddordeb parhaus ac rydym yn disgwyl cael ein diweddaru gan yr Uned Goedwigoedd Ryngwladol (tîm FCDO ar y cyd a'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net) yn ogystal ag yn barhaus drwy'r swydd Gynghori ar Goedwigaeth Ryngwladol yn Forest Research.

Cynrychiolir y DU, fel aelod-wlad, ar Gyngor EFI gan Forest Research ac mae Pennaeth yr Uned Goedwigoedd Ryngwladol yn eistedd ar ei Fwrdd Cyfarwyddwyr. Mae Prifysgol Bangor yn sefydliad sy'n aelod. Mae gennym sedd ar Fwrdd Forest Research a thrwy'r berthynas honno y byddwn yn clywed am waith EFI ac yn bwydo i mewn iddo. Ond byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Uned Goedwigoedd Ryngwladol wrth i waith ar ei sefydlu yn y DU fynd rhagddo.

Cenhadaeth EFI yw cysylltu gwybodaeth â chamau gweithredu ac i gyflawni ei genhadaeth, mae strategaeth EFI wedi'i llunio o amgylch tair thema ryng-gysylltiedig a rhyngddisgyblaethol: **Bioeconomi**, **Cydnerthedd** a **Llywodraethu** a thri nod strategol sy'n atgyfnerthu ei gilydd:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Maes ymchwil ac arloesi uchelgeisiol yn ymwneud â choedwigoedd Ewrop
- Polisïau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd cymdeithasol
- Ymwybyddiaeth mewn cymdeithas o bwysigrwydd coedwigoedd

Mae eu rhagolwg ar yr effeithiau disgwyliedig allweddol ar gyfer y cyfnod sydd i ddod a blaenoriaethau newydd ar gyfer pynciau ymchwil a pholisi i'w hystyried mewn cydweithrediad â'i bartneriaid wedi'i nodi yn ei Gynllun Gweithredu Strategaeth 2022-2025.

Rydym yn deall y bydd ffocws swyddfa EFI yn y DU yn cefnogi'r ymdrechion i atal coedwigodd rhag cael eu colli a thir rhag dirywio yn fyd-eang, a helpu i gwrthdroi hynny. Bydd dau brif maes gwaith:

- diwygio'r dull o lywodraethu coedwigoedd a defnydd tir mewn gwledydd partner;
- trawsnewid tir sydd wedi dirywio yn dirweddau adfywiol sy'n gynhwysol, yn fio-gadarnhaol ac yn niwtral yn yr hinsawdd, sy'n cefnogi marchnadoedd a chymunedau cynaliadwy.

Bydd dwy raglen allweddol yn bresennol yn swyddfa'r DU - **Cyfleuster Partneriaethau Rhyngwladol** (https://efi.int/partnerships) a'r **Gynghrair Bioeconomi Gylchol** (https://circularbioeconomyalliance.org). Mae'r Cyfleuster Partneriaethau Rhyngwladol yn ganolfan wybodaeth ac arbenigedd fyd-eang sy'n cefnogi diwygiadau polisi a llywodraethu i ddiogelu coedwigoedd y byd. Mae'n hwyluso partneriaethau rhwng gwledydd cynhyrchu a gwledydd sy'n defnyddio cynhyrchion i sicrhau eu bod yn meithrin pren yn gyfreithiol ac mewn ffordd gynaliadwy sy'n erbyn datgoedwigo, ac yn hwyluso'r ffordd y caiff nwyddau amaethyddol eu cynhyrchu a'u masnachu.

Bydd yr FCDO yn gweithio gyda EFI i sefydlu Canolfan Ryngwladol ar gyfer Llywodraethu Coedwigoedd (IFGH) a fydd yn gwasanaethu rhwydwaith eang o bartneriaid gan adeiladu o fodel ymgysylltu EFI â llunwyr polisi a chyrff ymchwil. Y gobaith yw y bydd yr IFGH yn gweithredu o swyddfeydd newydd EFI yn y DU.

Disgwylir i swyddfa'r DU gryfhau'r berthynas a'r cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU ac EFI ymhellach a chaniatáu i arbenigwyr EFI gymryd rhan fwy gweithredol mewn cyfarfodydd a thrafodaethau sy'n digwydd yn y DU. Unwaith y bydd y Cytundeb Gwlad Letyol ar waith, dylai fod yn haws i bob corff ac unigolyn yn y DU ymgysylltu'n uniongyrchol ag EFI oherwydd ei bresenoldeb ffisegol yn y DU. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'n cyflawni dros Gymru drwy'r sefydliadau sy'n aelodau.

Unwaith eto, diolch am godi'r pwnc pwysig hwn. Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs